# Y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg

## Adroddiad Blynyddol

## Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Atebolrwydd Tryloywder Bod yn agored Monitro

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

## Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd ..... 2
1. Cyflwyniad ..... 4
2. Trosolwg o Waith y Pwyllgor yn 2024/25 ..... 4
2.1 Rôl Craffu ..... 4
2.2 Y Blaengynllun Gwaith ..... 5
2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg ..... 6
2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol ..... 6
2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2023/24 ..... 6
2.4.2 Cynlluniau Busnes 2025/26 ..... 7
2.4.3 Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd ..... 7
2.4.4 Adroddiadau Perfformiad 2024/25 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor ..... 8
2.4.5 Grwpiau Ffocws Strategol ..... 8
2.4.6 Y wybodaeth ddiweddaraf am Gyhoeddiadau Adroddiadau Estyn ..... 9
2.4.7 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau ..... 9
2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ..... 9
2.5.1 Adroddiadau Monitro Cyllideb ..... 9
2.5.2 Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2023/24 ..... 9
2.5.3 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 tan 2027/28 ..... 10
2.5.4 Cyllidebau Ysgolion a Ffrydiau Cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Addysg 10
2.6 Addysg ..... 11
2.6.1 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Anghenion Dysgu Ychwanegol ..... 11
2.6.2 Strategaeth Y Rhaglen Moderneiddio Addysg ..... 12
2.6.3 Diweddariad Cynnydd ynghylch Argymhellion Arolygiadau Estyn ..... 13
2.6.4 Dysgu Oedolion yn y Gymuned ..... 14
2.6.5 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ..... 14
2.6.6 Diweddariad ar y ddarpariaeth Ôl-16 yn Sir Gaerfyrddin ..... 15
2.6.7 Addysg Ddewisol yn y Cartref yn Sir Gaerfyrddin ..... 16
3 Gweithgarwch Craffu Arall ..... 16
3.1 Gorchwyl a Gorffen ..... 16
3.2 Ymweliadau Safle ..... 16
3.3 Sesiynau Datblygu ..... 17
4. Effaith ..... 19
4.1 Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni? ..... 19
5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd ..... 20
6. Heriau ..... 20
7. Gwaith yn y Dyfodol ..... 21
8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu ..... 21
9. Presenoldeb ..... 22

## Rhagair gan y Cadeirydd



Fel Cadeirydd y Pwyllgor, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg ar gyfer blwyddyn y cyngor 2024/25.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i ystyried heriau parhaus y Cyfnod ar ôl Covid a'r Argyfwng Costau Byw sy'n effeithio ar anghenion addysgol a chymdeithasol ein cymuned. Mae dull craffu cyn gwneud penderfyniad y Pwyllgor yn galluogi aelodau i ddylanwadu ar gamau gweithredu ac ymateb iddynt yn ystod y broses o gynllunio a datblygu polisïau a strategaethau yn ogystal ag asesu perfformiad dros feysydd gwasanaeth perthnasol. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi nodi ei bynciau ei hun i ymchwilio iddynt, ac mae wedi parhau i asesu themâu parhaus.
Yn ystod y flwyddyn bu'r Pwyllgor yn craffu ar gynnydd o ran Amcanion Llesiant y Cyngor, yn enwedig Dechrau'n Dda a Chymunedau Ffyniannus. Wrth ystyried y gwaith o gyflwyno'r ddarpariaeth ar draws Sir Gaerfyrddin, pwysleisiodd y Pwyllgor arwyddocâd cyllid y Grant Datblygu Disgyblion sydd ar gael i ysgolion gan nad oedd yn ofynnol bellach i rieni/gwarcheidwaid wneud cais am brydau ysgol am ddim.
Bu'r Pwyllgor yn ystyried crynodeb o'r wyth Grŵp Ffocws Strategol a oedd yn manylu ar gylch gwaith, aelodaeth, trefniadau cyfarfodydd a dulliau adrodd ar gyfer pob maes blaenoriaeth addysg. Dechreuodd y Pwyllgor adolygu cynnydd pob un o'r Grwpiau Ffocws yn unigol a bydd yn parhau â rhaglen adolygu ddwy flynedd nes bod cynnydd a darpariaeth yr holl Grwpiau Ffocws wedi'u hasesu.

Cyflwynwyd sylwadau i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn mynegi pryderon sylweddol ynghylch toriadau i gyllid sy'n effeithio ar ein plant a'n pobl ifanc. Bu'r Aelodau hefyd yn ystyried y pwysau ariannol a wynebir gan ysgolion unigol, ac mae'r diffyg ariannol rhagamcanol yn bryder sylweddol. Mae Pennaeth ar secondiad yn gweithio ochr yn ochr â'n hysgolion i fynd i'r afael â heriau cyfyngiadau cyllidebol ac i lunio cynlluniau gweithredu. Mae'r Pwyllgor yn parhau i gymryd rhan yn yr ymgynghoriadau ar y Rhaglen Moderneiddio Addysg.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar Lefelau Presenoldeb Ysgolion a Chefnogi Ymddygiad ar draws ysgolion y sir. Bydd y Pwyllgor yn ailystyried y ddau fater hyn i olrhain cynnydd a rhannu arfer da. Pwysleisiodd fforwm diweddar o Benaethiaid yr heriau a'r cyfleoedd yn sgil ymddygiad heriol a nifer cynyddol o bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys awtistiaeth.

Mae adroddiadau ysgol Estyn yn cael eu rhannu gyda'r aelodau i nodi materion sy'n dod i'r amlwg. Mae Adroddiad Arolygu Estyn ar Wasanaethau Addysg Sir Gaerfyrddin yn rhoi templed sy'n adlewyrchu'r elfennau cadarnhaol yn yr adroddiad a'r tri argymhelliad ar feysydd i'w gwella, gan gynnwys presenoldeb disgyblion, prosesau gwella ysgolion a mireinio dulliau o hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau. Bydd y rhain yn parhau i gael eu monitro dros y flwyddyn i ddod.

Mae Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin yn cyflawni rôl werthfawr wrth dynnu sylw at bryderon fel bwlio, hawliau plant, iechyd meddwl, urddas mislif a thrais domestig, ac yn rhoi cipolwg ar ei rôl wrth wneud penderfyniadau, yn lleol ac yn genedlaethol.

Nododd yr Aelodau bwysigrwydd addysg cerddoriaeth mewn perthynas â datblygiad personol ein plant a'n pobl ifanc.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor, ac mae'n gwneud asesiadau ar gynnydd yn erbyn y saith canlyniad a nodir yn y Cynllun. Mae'r Pwyllgor yn rhoi sylw i ddiweddariad ar y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion, gan gynnwys yr opsiynau o ran darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol.
Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor am eu cyfraniad gwerthfawr dros y flwyddyn ddiwethaf, gan roi safbwynt mewnol ac allanol ar effeithiolrwydd darpariaeth yr Awdurdod. Diolch yn arbennig i'r Cynghorydd Carys Jones am gadeirio'r Pwyllgor am y ddwy flynedd diwethaf.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r Gwasanaethau Democrataidd ac i'r swyddogion Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg am eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb wrth gefnogi gwaith y Pwyllgor. Mae eu gwaith paratoi ar gyfer gweithdai a sesiynau datblygu yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol yn sylweddol ac yn sail i waith y Pwyllgor ar draws pob maes. Diolch yn fawr.

Diolch yn arbennig i Julie Owens am weinyddu a gwasanaethu'r Pwyllgor, a chroeso cynnes i'r Cyfarwyddwr newydd, Owain Lloyd. Croeso i Sir Gâr.

Bydd blaenoriaethau'r Pwyllgor yn cael eu hadlewyrchu mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol, a rhoddir rhywfaint o hyblygrwydd i ganiatáu i'r aelodau fod yn rhagweithiol wrth i faterion newydd godi. Bydd y cyfarfodydd strategol a chyfarfodydd polisi ffurfiol yn cael eu hategu gan weithdai ac ymweliadau ag ysgolion. Edrychaf ymlaen at barhau i gydweithio ag aelodau, aelodau cyfetholedig a swyddogion yn y flwyddyn i ddod.

**Y Cynghorydd Emlyn Schiavone**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth Graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrff partner ar draws y sir.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu*"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol"*.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25. Ei nod yw rhoi cyfle i aelodau fwrw golwg ar ei gyflawniadau, nodi meysydd arferion gorau a thynnu sylw at feysydd i'w gwella er mwyn gwella'r swyddogaeth graffu ymhellach. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn hwyluso trafodaeth ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan y Cynghorydd Emlyn Schiavone ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig a 5 o Aelodau Cyfetholedig â Phleidlais (3 rhiant-lywodraethwr etholedig, 1 cynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru ac 1 cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig Rufeinig). Mae Aelodau'r Cabinet yn mynd i gyfarfodydd fel sy'n ofynnol er mwyn annerch y Pwyllgor ar feysydd yn eu portffolios priodol.

Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a swyddogion eraill y Cyngor, pan fo angen.

## 2. Trosolwg o Waith y Pwyllgor yn 2024/25

### 2.1 Rôl Craffu

Mae pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar Bortffolios Penodol y Cabinet a'u gwasanaethau perthnasol a chael trosolwg ohonynt. Mae'r Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn gyfrifol am graffu ar bortffolio Addysg a'r Gymraeg y Cabinet a'r meysydd gwasanaeth perthnasol:-

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau rhwng 3 ac 19 oed | Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion |
| Gwella Ysgolion, Trefniadaeth a Pherfformiad | Cynllun Strategol a Fforwm y Gymraeg mewn Addysg |
| Seicoleg Addysg | Dysgu Oedolion yn y Gymuned gan gynnwys Cymraeg i Oedolion |

| | |
|---|---|
| Cynnal Ysgolion a Gwasanaethau Llywodraethwyr | Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid |
| Addysg Feithrin a Safonau | Derbyn Disgyblion i Ysgolion |
| Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) | Gwasanaethau Ymddygiadol |
| Consortia Rhanbarthol | Presenoldeb yn yr Ysgol |
| Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion Sir Gaerfyrddin | Data a systemau addysg |
| Cynhwysiant (ADY) | Gwasanaeth Cerdd |
| Adrodd ar ddatblygiad y Gymraeg / Safonau | Gwasanaethau Arlwyo Mewn Ysgolion |
| Ysgolion Iach | Addysg Ôl-16 a Chyllid a'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol |
| Estyn | |

Yn unol â'i feysydd cyfrifoldeb, bydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ceisio:-

- Archwilio pa mor dda y mae'r Cabinet a'r Cyngor yn perfformio;
- Dwyn y Cabinet i gyfrif a cheisio hyrwyddo proses benderfynu sy'n agored ac yn dryloyw;
- Monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor;
- Adolygu penderfyniadau'r Cabinet lle bo hynny'n briodol;
- Cynorthwyo'r Cabinet i ddatblygu, monitro, ac adolygu polisïau;
- Craffu ar y strategaeth cyllideb refeniw a'r rhaglenni buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig, a hynny fel rhan allweddol o'r broses ymgynghori;
- Galluogi sefydliadau a phartneriaid allanol i gyfrannu at y gwaith o ystyried materion a all effeithio ar y modd y cyflawnir blaenoriaethau'r Cyngor a'r sir gyfan.

## 2.2 Y Blaengynllun Gwaith

Mae'r broses graffu yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau yr Awdurdod Lleol. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio ag asiantaethau allanol.

Mae Pwyllgorau Craffu'n gweithredu dull craffu cyn gwneud penderfyniadau sy'n galluogi'r Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg i gymryd perchnogaeth o'i Flaengynllun Gwaith a phennu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y mae'n dymuno eu hystyried. Gall Pwyllgorau Craffu hefyd nodi eu pynciau eu hunain, sy'n berthnasol i'w cylch gwaith, i'w hadolygu. Yn ogystal, gall y Cabinet wahodd Pwyllgorau Craffu perthnasol i graffu ar benderfyniad oedd ar y gweill.

Defnyddiodd y Pwyllgor fframwaith Gateway y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu i ddatblygu ei Flaengynllun Gwaith ar gyfer blwyddyn y cyngor 2024/25 a adolygwyd yn rheolaidd. Roedd hyn yn darparu dull hawdd ei reoli, hyblyg a chadarn o graffu ac yn

sicrhau bod y meysydd i'w hadolygu yn cael eu hystyried ar sail blaenoriaeth ac mewn modd amserol.

Yn hyn o beth, penderfynodd y Pwyllgor ddosbarthu adroddiadau cyfnodol ynghylch perfformiad a monitro'r gyllideb i aelodau y tu allan i'r rhaglen cyfarfodydd ffurfiol. Roedd y broses hon yn golygu bod modd gosod unrhyw faterion perthnasol a nodwyd gan aelodau ar yr agenda ffurfiol i'w hystyried ymhellach, fel y bo'n briodol. Arweiniodd manteision y dull hwn o weithio at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu. At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Blaengynllun Gwaith.

## 2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg

Trefnir cyfarfodydd o bryd i'w gilydd i ystyried materion ac adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn ei Flaengynllun Gwaith. Cynhaliodd y Pwyllgor 5 cyfarfod ffurfiol yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25 a chynhaliwyd pob cyfarfod yn unol â'r darpariaethau a nodir yn Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Cafodd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer Ebrill 2025 ei ganslo, ond cafodd yr adroddiadau oedd yn ymwneud â monitro'r gyllideb, monitro perfformiad a diweddariadau Estyn eu dosbarthu drwy e-bost i'w hystyried, ac roedd trefniadau ar gael i aelodau godi unrhyw faterion mewn cyfarfod ffurfiol yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, efallai y bydd y Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, Craffu Un Diwrnod ac ymweliadau â sefydliadau a ddaw o fewn ei gylch gwaith, ynghyd â sesiynau datblygu a gweithdai.

## 2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Un o brif rolau'r Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau sydd o fewn ei faes gorchwyl. Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau monitro perfformiad a gwahanol strategaethau a chynlluniau i roi asesiad cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

### 2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2023/24

Ym mis Hydref 2024 cafodd y Pwyllgor i'w ystyried Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2023/24 ynghylch Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-2027 a gynhyrchwyd yn unol â'r darpariaethau perthnasol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2022 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2027. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran Amcanion Llesiant y Cyngor, ynghyd â hunanasesiad y Cyngor yn erbyn gofynion perfformiad y flwyddyn ariannol flaenorol. Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y blaenoriaethau thematig a gwasanaeth sy'n dod o fewn ei faes gorchwyl o fewn yr Amcanion Llesiant canlynol:

| | |
|---|---|
| **AMCAN LLESIANT 1:** | Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda). |

| | |
|---|---|
| **AMCAN LLESIANT 2:** | Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio’n dda (Byw a Heneiddio’n Dda) |
| **AMCAN LLESIANT 3:** | Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus). |

**Canlyniad:**
**Yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr 2024, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i'r holl adborth a ddaeth i law ac argymhellodd i'r Cyngor fod Adroddiad Blynyddol 2023/24 yn cael ei gymeradwyo. Yna mabwysiadodd y Cabinet yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr, 2024.**

### 2.4.2 Cynlluniau Busnes 2025/26

Ym mis Ionawr 2025 bu'r Pwyllgor yn ystyried y Cynlluniau Busnes drafft sy'n berthnasol i Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer 2025/26 fel a ganlyn:-

- Cynllun y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
- Cynllun Effeithiolrwydd Ysgolion ac Ymgysylltu â Disgyblion
- Y Gymraeg (o fewn y Cynllun Pobl, Digidol a Pholisi)

Roedd y cynlluniau hyn yn pennu'r camau a'r mesurau strategol i'w gweithredu ym mhob is-adran er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i amcanion llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellwyd ar gyfer yr Is-adran ac adolygu'r camau a'r mesurau arfaethedig o ran priodoldeb wrth gyflawni mewn perthynas â Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor a chynnal swyddogaethau allweddol y Cyngor.

Wrth ystyried yr adroddiad, roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod y Cyngor yn sianelu ei adnoddau i liniaru yn erbyn y pwysau sy'n wynebu ysgolion, ond byddai methu â pharhau yn hyn o beth yn peri risg sylweddol i'r Awdurdod.

**Canlyniad:**

**Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynlluniau Busnes Drafft sy'n berthnasol i'r gyfarwyddiaeth Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer 2025/26.**

### 2.4.3 Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd

Gwnaeth y Pwyllgor gais i adolygu'r Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd oedd yn anelu at roi gweledigaeth ar sut y byddai'r Cyngor yn darparu'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol dros y degawd nesaf. Roedd yn fwriad yn wreiddiol i'r adroddiad hwn gael ei dderbyn gan y Pwyllgor ym mis Hydref 2023 ond cafodd ei drosglwyddo i 2024/25 gan nad oedd y strategaeth wedi'i chwblhau. Ar ôl datblygu'r strategaeth, nodwyd nad oedd gwybodaeth yn ymwneud â gwasanaethau plant wedi'i chynnwys ac felly nid oedd yn berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor. Felly cafodd yr adolygiad ei dynnu o Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor.

### 2.4.4 Adroddiadau Perfformiad 2024/25 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, cafodd adroddiadau monitro perfformiad chwarterol sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor eu dosbarthu drwy e-bost i aelodau fel a ganlyn:-

- Mehefin 2024 – Monitro Perfformiad Chwarter 4 2023/24
- Hydref 2024 – Monitro Perfformiad Chwarter 1 2024/25
- Ionawr 2025 – Monitro Perfformiad Chwarter 2 2024/25
- Ebrill 2025 – Monitro Perfformiad Chwarter 3 2024/25

Roedd y wybodaeth yn rhoi hunanwerthusiad o berfformiad yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol sydd wedi'i ymgorffori yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

**Canlyniad:-**

**Roedd yr adroddiadau'n galluogi aelodau i fonitro perfformiad mewn perthynas â'r Amcanion Llesiant sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor ac sy'n cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod.**

### 2.4.5 Grwpiau Ffocws Strategol

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ym mis Hydref 2024 oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws y Grwpiau Ffocws Strategol a oedd wedi'u defnyddio'n flaenorol fel mecanwaith i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion busnes Addysg a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor na fyddai'r Grwpiau Ffocws Strategol yn parhau mwyach oherwydd newidiadau yn y strwythur rheoli. Yn unol â hynny, cafodd Grŵp Rheolwyr mewnol ei sefydlu fel modd o sicrhau bod strategaethau a threfniadau cynllunio busnes yr is-adran yn cael eu llunio ar y cyd, eu cyflawni a'u gwerthuso, yn ogystal â darparu fforwm i ddatrys materion dybryd a chymhleth mewn ysgolion ac ar draws yr is-adran.

Roedd yr is-adran yn bwriadu ymgynghori â Phenaethiaid ynghylch materion mewn cyfarfodydd ardal a gynhelir bob hanner tymor er mwyn cael mewnbwn gan bob pennaeth yn hytrach na chynrychiolaeth o benaethiaid, a byddai diweddariadau wythnosol yn cael eu rhoi i ysgolion mewn llythyr newyddion.  Gan na fyddai diweddariadau Grwpiau Ffocws Strategol mwyach, penderfynodd y Pwyllgor y byddai adroddiadau cyfnodol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor i grynhoi'r trafodaethau gyda Phenaethiaid, gan gynnwys y camau gweithredu a'r canlyniadau yn sgil y cyfarfodydd hynny.

**Canlyniad:-**

**Cafodd y Pwyllgor ei ddiweddariad cyntaf ynghylch y Grŵp Penaethiaid ym mis Mai 2025. Cafodd aelodau wybod am y materion perthnasol a ystyriwyd yn y cyfarfodydd o ran y meysydd rheoli ysgolion, polisi addysg, a mentrau awdurdodau lleol.  Roedd**

**y cyfarfodydd yn llwyfan hanfodol i arweinwyr ysgolion drafod heriau a gweithio ar y cyd i ddod o hyd i atebion ac i rannu arferion gorau.**

### 2.4.6 Y wybodaeth ddiweddaraf am Gyhoeddiadau Adroddiadau Estyn

Cafodd gohebiaeth yn cynnwys gwybodaeth am gyhoeddiadau adroddiadau Estyn perthnasol a diweddaraf ei dosbarthu i'r Pwyllgor drwy e-bost ym mis Mehefin 2024, Hydref 2024, Rhagfyr 2024, Ionawr 2025, Ebrill 2025 a Mai 2025 mewn perthynas â'i adroddiadau arolygu a'i adroddiadau thematig oedd yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant.

**Canlyniad:-**
**Roedd yr adroddiadau'n hysbysu'r Pwyllgor o ddatblygiadau/materion sy'n dod i'r amlwg ac yn rhoi cyfle i aelodau godi unrhyw faterion i'w hystyried ymhellach.**

### 2.4.7 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau

Yn ystod blwyddyn y cyngor gwnaed ceisiadau am eitemau ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl graffu. Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf ddwywaith y flwyddyn am y Camau Gweithredu a'r Atgyfeiriadau i'r Pwyllgor yn ei gyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2024, Rhagfyr 2024 a Mai 2025 a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

## 2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

### 2.5.1 Adroddiadau Monitro Cyllideb

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, darparwyd adroddiadau chwarterol ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol i aelodau fel a ganlyn:-

- Hydref 2024 - mewn perthynas â’r sefyllfa gyllidebol ar 30 Mehefin 2024;
- Rhagfyr 2024 - mewn perthynas â’r sefyllfa gyllidebol ar 31 Awst 2024.
- Ionawr 2025 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Hydref 2024
- Ebrill 2025 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Rhagfyr 2024 a
- Mai 2025 - mewn perthynas â’r sefyllfa gyllidebol ar 31 Chwefror 2025.

Dosbarthwyd adroddiadau monitro cyllideb ar gyfer Hydref 2024, Rhagfyr 2024 ac Ebrill 2025 i'r Pwyllgor drwy e-bost i roi cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu. Cafodd yr adroddiadau monitro cyllideb ar gyfer Ionawr 2025 a Mai 2025 eu hystyried yn rhan o'r agenda ffurfiol gan alluogi'r aelodau i fonitro gwariant ym mhob maes gwasanaeth a’r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

### 2.5.2 Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2023/24

Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf cyfredol, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2023/24 ym mis Hydref 2024 a roddodd i'r Pwyllgor sefyllfa ariannol fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y crynodeb o'r sefyllfa'n dangos bod yr adran Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi adrodd am danwariant o £1,264k yn erbyn ei gyllideb gymeradwy a oedd, at ei gilydd, i'w briodoli i ddefnyddio cyllid grant a swyddi gwag. Gostyngwyd y tanwariant gan y gost o

gynnal safleoedd ysgolion caeedig a phwysau o ran darparu brecwast a chinio am ddim yn yr ysgol.

### 2.5.3 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 tan 2027/28

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2025 ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 tan 2027/28. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r Strategaeth Cyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2025/26 i'r Pwyllgor, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2026/2027 a 2027/28.

O ran ystyried y sefyllfa ynghylch cyllidebau dirpwyedig ysgolion, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am gamau gweithredu parhaus yr Awdurdod i liniaru'r gorwariant cyllidebol, ond arhosodd y gorwariant a ragwelir ar lefel gritigol ar draws nifer fawr o ysgolion yn y sir ac roedd posibilrwydd y byddai hyn yn ansefydlogi cyllid ehangach yr Awdurdod. Felly, bernid ei bod yn annhebygol iawn y byddai gostyngiad pellach yn y gyllideb yn cael ei gyflawni ar y cam hwn. Yn unol â hynny, cytunwyd ynghylch mynd i'r afael â'r gostyngiad drwy gynyddu'r dreth gyngor, gan gyfateb i oddeutu 3.5%, er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu wrth i gamau brys gael eu cymryd i sicrhau bod y gwariant yn unol â'r adnoddau presennol unwaith eto.

Mynegodd y Pwyllgor bryder ac anfodlonrwydd bod y diffygion cronnol yn parhau i fod yn risg sylweddol i'r Awdurdod, fodd bynnag, nid oedd llawer o le i symud yng ngoleuni'r dyraniad cyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

**Canlyniad:**

**Fel rhan o'r ymgynghoriad eang a gynhaliwyd gan yr Awdurdod ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2025/26 tan 2027/28, ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth a chymeradwyodd gynigion y gyllideb, fel y'u cyflwynwyd. Yna cafodd Strategaeth y Gyllideb ei mabwysiadu gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2025, yn amodol ar rai diwygiadau.**

### 2.5.4 Cyllidebau Ysgolion a Ffrydiau Cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Addysg

Ym mis Hydref 2024 cafodd y Pwyllgor adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Ysgolion Meithrin, Cynradd, Uwchradd ac Arbennig, gan gynnwys gwybodaeth am ffrydiau arian Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau addysg.

Adolygodd y Pwyllgor y dadansoddiad ariannol manwl o falansau, costau a rhagolygon ysgolion ar gyfer 2024-2025, gan gynnwys data ar falans a gariwyd, cyllid, tanwariant/gorwariant, a balansau a ragwelir, a oedd yn rhoi mewnwelediad i effeithiolrwydd rheoli a chynllunio ariannol ysgolion. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at orwariant wedi'i ragweld o £10.8m ar yr adeg honno, a oedd yn cyfateb i ddiffyg net o fwy na £5m mewn cronfeydd wrth gefn ysgolion erbyn Mawrth 2025, yr ystyriwyd ei fod yn frawychus ac yn anghynaliadwy. Cyflwynwyd sylwadau i Ysgrifennydd y Cabinet dros

Addysg yn Llywodraeth Cymru gan bwysleisio'r pwysau ariannol difrifol ar ysgolion lle'r oedd lefel y ddyled wedi treblu o ganlyniad i'r baich ariannol a roddwyd arnynt.

Ar ben hynny, yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2024, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i atgyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i edrych ar fater ehangach cyllidebau dirprwyedig ysgolion. Cododd y Pwyllgor bryderon sylweddol ynghylch y llwybr presennol mewn perthynas â sefyllfa ariannol gyffredinol ysgolion a chydnabu'r heriau a wynebir o ran cynnal safonau addysg uchel wrth gydbwyso cyllidebau.

**Canlyniad:-**

**Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y prif bwysau ariannol y mae ysgolion yn eu hwynebu, a oedd, ar y cyfan, i'w priodoli i gostau staffio. Cydnabuwyd hefyd fod cyllidebau ysgolion yn cael eu pennu yn unol â'r fformiwla ariannu gyffredinol ar gyfer ysgolion ac yn seiliedig ar nifer y disgyblion. Hefyd rhoddwyd crynodeb i'r Pwyllgor o'r mecanweithiau cymorth parhaus a gynigir i ysgolion.**

**Ym mis Chwefror 2025 cafodd y Pwyllgor sesiwn ymwybyddiaeth oedd yn amlinellu'r broses a'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r mecanweithiau cymorth a'r trefniadau monitro o fewn yr Awdurdod i gynorthwyo ysgolion i reoli eu cyllidebau (mae adran 3.3 yn cyfeirio at hyn).**

**Gofynnodd y Pwyllgor am i ddiweddariad pellach ar gyllidebau ysgolion gael ei gyflwyno i'w ystyried fel rhan o'i Flaengynllun Gwaith ar gyfer 2025/26.**

## 2.6 Addysg

### 2.6.1 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ym mis Mehefin 2024 ystyriodd y Pwyllgor ddiweddariad ynghylch gweithredu'r darpariaethau sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a oedd yn ceisio trawsnewid disgwyliadau, profiadau a deilliannau plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Roedd yr adroddiad yn nodi cynnydd yr Awdurdod hyd yma, meysydd o arferion gorau, meysydd i'w gwella a'r datblygiadau yn y dyfodol sydd eu hangen i gefnogi diwygio parhaus. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr Awdurdod ar y trywydd iawn i drosglwyddo pob plentyn i'r system ADY newydd erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2024/2025.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad oedd yn manylu ar brofiadau Ysgol y Bedol, Ysgol Peniel ac Ysgol Sant Ioan Llwyd wrth ymgorffori'r system ADY yn eu hysgolion nhw.

Wrth ystyried yr heriau o ran gweithredu ADY, nodwyd bod y prif feysydd yn canolbwyntio ar gapasiti staffio, cysondeb o ran adnabod ADY, ariannu a dyrannu adnoddau, sicrhau ansawdd Cynlluniau Datblygu Unigol, cydweithio amlasiantaethol ac ymgysylltu â lleoliadau nas cynhelir a chyflawni cyfrifoldebau o ran dysgwyr ôl-16.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod cymhlethdodau mewn perthynas ag iechyd a chydweithredu amlasiantaethol yn seiliedig ar atgyfeiriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol, pennu cyfrifoldeb am ariannu a delio â phrotocolau gwahanol ar gyfer asiantaethau trawsffiniol. Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch oedi annerbyniol y GIG o ran plant sy'n cael asesiadau awtistiaeth ac Anhwylder Gorfywiogrwydd a Diffyg Canolbwyntio ond anogwyd y Pwyllgor i nodi bod cymorth ar gael i'r holl ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, waeth beth yw eu diagnosis meddygol ffurfiol.

**Canlyniad:-**
**Penderfynodd y Pwyllgor ymgorffori gweithdy ynghylch Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ym Mlaengynllun Gwaith 2024/25. Yn dilyn hynny trefnwyd gweithdy ar gyfer Gwanwyn 2025, ond oherwydd nad oedd diweddariadau pellach ar gael i'r Pwyllgor, cytunwyd y dylid ei ohirio a bydd yn cael ei ystyried fel rhan o Flaengynllun Gwaith 2025/26.**

### 2.6.2 Strategaeth Y Rhaglen Moderneiddio Addysg

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i fersiwn drafft yr Awdurdod o Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg ym mis Mehefin 2024 a luniwyd i gyfarwyddo cyflawni'r Rhaglen Moderneiddio Addysg newydd yn y dyfodol. Roedd y strategaeth ddrafft wedi cael ei harwain gan gyfres o nodau strategol ac roedd yn seiliedig ar egwyddor dull cyfannol a'r gofyniad i wella a chefnogi ystod o amcanion cenedlaethol, corfforaethol ac addysgol. Hefyd, roedd y strategaeth ddrafft yn manylu ar feini prawf hyfywedd a buddsoddi oedd yn ofynnol i sicrhau dull priodol a thryloyw o ddatblygu trefniadaeth ysgolion a chynigion buddsoddi.

Rhoddodd swyddogion sylw i ystod o ymholiadau a sylwadau oedd yn ymwneud ag ansawdd adeiladau ysgol presennol, y rhaglen gyfalaf ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion, defnyddio cyfleusterau ysgolion at ddefnydd cymunedol a chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dylunio adeiladau ysgol newydd. Hefyd cyflwynwyd awgrymiadau mewn perthynas â'r geiriad yn yr adran Egwyddorion Addysg Gynradd.

Cyfeiriwyd at y pwysau ariannol sylweddol o fewn y rhaglen gyfalaf Addysg a Phlant lle eglurwyd bod gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion yn cael blaenoriaeth yn unol â'r meysydd sydd â'r anghenion mwyaf; ond nodwyd nad oedd digon o gyllideb i fodloni anghenion ysgolion.

Cafodd y Pwyllgor gipolwg ar ddatblygu strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg a fyddai'n galluogi system addysg a fyddai'n adlewyrchu natur ddaearyddol y sir ac a fyddai'n darparu amgylcheddau dysgu sy'n addas ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21ain ganrif.

**Canlyniad:**

**Cafodd y Pwyllgor gipolwg ar ddatblygiad Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg a oedd yn ceisio gweithredu system addysg oedd yn adlewyrchu natur ddaearyddol y sir ac a oedd yn darparu amgylcheddau dysgu addas ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21ain ganrif.**

**Ym mis Tachwedd 2024, ar ôl ystyried sylwadau'r Pwyllgor, ynghyd â'r adborth a ddarparwyd fel rhan o'r broses ymgynghori â'r cyhoedd, cymeradwyodd y Cabinet y Strategaeth Rhaglen Foderneiddio Addysg ddrafft.**
**Bydd diweddariadau rheolaidd ar weithredu'r Rhaglen Moderneiddio Addysg yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor yn y dyfodol.**

### 2.6.3 Diweddariad Cynnydd ynghylch Argymhellion Arolygiadau Estyn

Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024, cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion a ddarparwyd gan Estyn yn dilyn eu harolygiad o wasanaethau addysg yn Sir Gaerfyrddin ym mis Gorffennaf 2024. Roedd yr argymhellion yn canolbwyntio ar wella presenoldeb disgyblion yn ysgolion yr awdurdod, cryfhau prosesau gwella ysgolion a mireinio dulliau o hunanwerthuso a chynllunio gwella.

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r ffigurau presenoldeb ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a chafodd grynodeb o'r amrywiaeth o fentrau ac ymgyrchoedd a oedd yn ceisio sicrhau dull cryfach o weithredu a pherchnogaeth ar wella presenoldeb dros amser. Cymeradwyodd y Pwyllgor y dull cyfannol a ddefnyddir gan yr Awdurdod i fynd i'r afael ag anghenion lles bugeiliol ac unigol disgyblion a fydd, yn ei dro, yn effeithio'n gadarnhaol ar lefelau presenoldeb yn y tymor hir. Wrth gydnabod bod heriau presenoldeb ysgol yn adlewyrchu'r sefyllfa genedlaethol, croesawodd y Pwyllgor gyllid gwerth £8.8m gan Lywodraeth Cymru i wella lefelau presenoldeb.

Mewn perthynas â chryfhau prosesau gwella ysgolion, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r strategaeth gwella ysgolion gynhwysfawr oedd wedi'i chyfleu i holl aelodau'r tîm ac a oedd yn canolbwyntio ar gryfhau cynnydd disgyblion a'r modd yr ymgysylltir â hwy a datblygiad proffesiynol athrawon sydd newydd gymhwyso, cynorthwywyr addysgu, ac arweinwyr y dyfodol. Roedd y prosesau gwella ysgolion yn cynnwys hunanwerthuso a monitro arferion dysgu proffesiynol yn rheolaidd ac yn gywir ac roedd yn galluogi arweinwyr i ddod i adnabod eu hysgolion yn well. Adlewyrchwyd hyn yn y ffaith fod llai o ysgolion yn derbyn argymhelliad o hunanwerthuso a monitro gan Estyn. At hynny, roedd cydweithio rhwng ysgolion, gweithio mewn clystyrau ac arferion effeithiol wrth rannu digwyddiadau yn gwella prosesau gwella ysgolion ymhellach.

I fynd i'r afael â'r argymhelliad sy'n ymwneud â hunanwerthuso a chynllunio gwella, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i fesurau oedd wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn gallu nodi materion sy'n peri pryder yn gynnar trwy wneud gwell defnydd o dystiolaeth a data, defnyddio system sydd â sgoriau risg i flaenoriaethu materion i'w gwella a gwneud gwell defnydd o'r System Monitro Perfformiad a Gwella i adolygu gwybodaeth yn feirniadol yn erbyn meini prawf penodol.

**Canlyniad:**

**Cymeradwyodd y Pwyllgor y mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith hyd yma a bydd yn ystyried diweddariadau pellach yn y dyfodol i gefnogi'r Awdurdod o ran mynd i'r afael ag Argymhellion Estyn.**

### 2.6.4 Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Bu'r Pwyllgor, yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2024, yn ystyried adroddiad ar Ddysgu Oedolion yn y Gymuned a oedd yn amlinellu'r trefniadau cydweithredol rhwng gwahanol randdeiliaid i ddarparu Sgiliau Hanfodol a Saesneg i ddysgwyr ôl-16 cymwys ar draws sawl canolfan yn y sir.

Cafodd y Pwyllgor drosolwg o fecanweithiau cyllido ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned a nododd weithrediad llwyddiannus y Prosiect Herio, sef menter gan Lywodraeth y DU sy'n ceisio gwella sgiliau rhifedd oedolion.

Adolygodd y Pwyllgor y manteision, y meysydd i'w gwella a'r cynlluniau i ddatblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol lle roedd yr aelodau wedi croesawu ymdrechion i ehangu'r ddarpariaeth i gyrraedd mwy o oedolion yn y gymuned, yn enwedig grwpiau anodd eu cyrraedd.

**<u>Canlyniad:</u>**

**Cafodd y Pwyllgor gipolwg gwerthfawr ar bwysigrwydd darpariaeth y gwasanaethau Dysgu Oedolion yn y Sir.**

**O ystyried y daeth y Prosiect Herio i ben yn 2025, cymeradwyodd y Pwyllgor y gwaith parhaus i weithredu strategaeth ymadael a gwaddol i ymgysylltu â grwpiau dysgwyr er mwyn cynnig cyfleoedd i drosglwyddo i Ddysgu Oedolion yn y Gymuned a pharhau â'r gwaith yr oedd y Prosiect Herio wedi'i ddechrau mewn ysgolion.**

### 2.6.5 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion

Yn ystod y cyfnod adrodd cafodd y Pwyllgor ddau ddiweddariad i fonitro cynnydd mewn perthynas â'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion. Ym mis Rhagfyr 2024, cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar sefyllfa bresennol y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a leolir yn Aberystwyth, ers 1 Medi 2024. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r amrywiaeth o gyrsiau 'Dysgu Cymraeg' a gynigir ar wahanol lefelau, o ddechreuwyr i siaradwyr profiadol, ynghyd â'r niferoedd cofrestru presennol.

Roedd disgwyl i'r Pwyllgor gael diweddariad pellach ynghylch trosglwyddo'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion o Gyngor Sir Caerfyrddin i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ei gyfarfod ym mis Mai 2025, ond cafodd yr adroddiad ei ohirio.

**Canlyniad:**

**Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad pellach fel rhan o Flaengynllun Gwaith 2025/26.**

### 2.6.6 Diweddariad ar y ddarpariaeth Ôl-16 yn Sir Gaerfyrddin

Ym mis Rhagfyr 2024, ac yn dilyn y gweithdy a'r diweddariad cynnydd ynghylch yr Adolygiad Ôl-16 a ddaeth i law yn ystod 2022/23, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyd-destun cenedlaethol y corff comisiynu Medr ar gyfer Darpariaeth Addysgol Ôl-16.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod ysgolion wrthi'n datblygu eu darpariaeth Ôl-16 a deilliannau dysgwyr trwy fwy o gydweithio ac ymgysylltu â dysgwyr. Adolygodd y Pwyllgor fanteision a'r heriau o ran dulliau addysgu cydweithredol a chafodd wybod am y cydweithrediadau presennol a'r rhai sydd wedi'u cynllunio, ynghyd â'r ymdrechion i sicrhau darpariaeth deg i bob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd y camau nesaf yn cynnwys cryfhau'r gwaith o gydlynu cyrsiau Ôl-16 yn strategol, gwella'r ddarpariaeth Gymraeg, a datblygu cysylltiadau â phartneriaethau allanol.

O ganlyniad i ddiffyg trafnidiaeth gyhoeddus, ynghyd â chynnydd mewn costau cludiant, mynegodd y Pwyllgor ei gefnogaeth ar gyfer darpariaeth dysgu hybrid yn y dyfodol, ac awgrymwyd bod cyfleoedd ymhellach yn cael eu harchwilio gyda'r sefydliad nid-er-elw Dolen Teifi a oedd yn ceisio darparu cludiant fforddiadwy a hygyrch i unigolion, i sefydliadau ac i grwpiau yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Hefyd, pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen am bolisi integredig, trwy gydweithio rhwng ysgolion a cholegau, ac y gallai fod o fudd i ddysgwyr ôl-16 ledled y sir, ac yn enwedig y rheiny mewn ardaloedd gwledig. Cymeradwyodd y Pwyllgor y sylwadau oedd yn cael eu gwneud i lobïo Llywodraeth Cymru am well trafnidiaeth gyhoeddus.

**Canlyniad:**

**Nododd yr Aelod Cabinet a'r Swyddogion y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor ac fe'u defnyddiwyd i fireinio'r Adolygiad Ôl-16.**

### 2.6.7 Addysg Ddewisol yn y Cartref yn Sir Gaerfyrddin

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mai 2025, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn Sir Gaerfyrddin. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Rhwymedigaethau'r Awdurdod
- Cynnal cofrestr
- Diogelu
- Ymyrraeth
- Addysg Hyblyg
- Cyllido

**Canlyniad:**

**Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio rhwng ysgolion ac ymgynghorwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref sy'n gyfrifol am gefnogi dysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref a'u teuluoedd.**

**Nodwyd sylwadau'r Pwyllgor gan yr Aelod Cabinet a'r swyddogion a rhoddir diweddariad pellach maes o law.**

# 3 Gweithgarwch Craffu Arall

## 3.1 Gorchwyl a Gorffen

Ni wnaeth y Pwyllgor gynnal adolygiad Gorchwyl a Gorffen yn ystod 2024/25.

## 3.2 Ymweliadau Safle

Yn ystod y cyfnod adrodd ymwelodd y Pwyllgor â'r ysgolion canlynol:

- Ysgol Gynradd Pum Heol
- Ysgol Gynradd Bancffosfelen

Rhoddodd yr ymweliadau gipolwg i'r Pwyllgor ar effaith yr amgylchedd dysgu ar ddatblygiad disgyblion.

**Canlyniad:**

**Cynhelir Ymweliadau Safle pellach yn 2025/26 a fydd yn hwyluso'r Pwyllgor wrth ystyried y Rhaglen Moderneiddio Addysg (ASE).**

## 3.3 Sesiynau Datblygu

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i'r sesiynau/seminarau datblygu canlynol a drefnwyd gan yr Awdurdod:

| Dyddiad | Sesiwn Datblygu / Seminar |
|---|---|
| 22/05/2024 | Cyflwyniad i Waith Crwner Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin |
| 14/06/2024 | Cyflwyniad i'r System Rheoli Dysgu "Thinqi" |
| 10/07/2024 | Cynnal a Chadw a Gosod Arwynebau ar Briffyrdd |
| 25/07/2024 | Cytundebau Adran 106 (Cynllunio) |
| 11/09/2024 | Diogelu'r Amgylchedd - Safonau Bwyd ac Iechyd y Cyhoedd |
| 26/09/2024 | Diogelu Corfforaethol |
| 09/10/2024 | Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Bentre Awel |
| 21/10/2024 | Sesiwn Briffio ynghylch Masnachfreinio Bysiau Trafnidiaeth Cymru |
| 29/10/2024 a 30/10/2024 | Sesiwn hyfforddi Ymwybyddiaeth Ffrindiau Dementia |
| 12/11/2024 | Meithrin Seibergadernid: Diogelu Dyfodol Digidol Ein Cyngor |
| 20/11/2024 | Paratoi ar gyfer y Gaeaf |
| 10/12/2024 | Rôl a Phrif Ddyletswyddau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| 11/12/2024 | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru - Diweddariad Blynyddol y Prif Swyddog Tân |
| 29/01/2025 | Rheoli Maetholion - Heriau a Chanllawiau Cenedlaethol |
| 05/02/2025 | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| 12/02/2025 | Swyddogion Etholedig - Sesiwn Briffio ynghylch Diogelwch Personol |
| 12/02/2025 | Sesiwn Hyfforddi ynghylch Datblygiad Un Blaned |
| 18/02/2025 a 24/02/2025 | Gweithdy Hunanasesu'r Swyddogaeth Graffu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| 09/04/2024 | Digwyddiad Galw Heibio y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| 09/04/2024 | Sesiwn Galw Heibio System Rheoli Dysgu "Thinqi" |
| 07/05/2025 | Hyfforddiant Gloywi ar Gôd Ymddygiad yr Aelodau |

Yn ogystal â'r sesiynau / seminarau Datblygu Corfforaethol uchod, cynhaliodd y Pwyllgor y sesiynau pwrpasol canlynol:

| Dyddiad | Sesiwn Datblygu / Gweithdy |
|---|---|
| 06/01/2025 | **Effeithiolrwydd Cyrff Llywodraethu Ysgolion**<br><br>Rhoddodd y sesiwn datblygu ystyriaeth i effeithiolrwydd cyrff llywodraethu ysgolion yng nghyd-destun y canlynol:<br><br>• Rhwymedigaethau Statudol a Chyfrifoldebau Craidd |

| | |
|---|---|
| | • Prif Swyddogaethau a Gofynion y Rôl<br>• Gofynion a Chyfleoedd Hyfforddi<br>• Yr Arferion Gorau a Heriau<br>• Rôl yr Awdurdod Lleol<br>• Recriwtio a Chadw<br><br>**<u>Canlyniad:</u>**<br><br>Roedd yr adborth ar lafar a ddarparwyd i Swyddogion yn y gweithdy wedi helpu i lunio canllawiau a phrosesau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Lleol, o fewn ffiniau gofynion deddfwriaethol, i wella effeithiolrwydd cyrff llywodraethu ysgolion. |
| 13/02/2025 | **<u>Cyllidebau a Ddirprwyir i'r Ysgolion</u>**<br><br>Roedd y sesiwn datblygu wedi rhoi amlinelliad o'r broses a'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r mecanweithiau cymorth a'r trefniadau monitro o fewn yr Awdurdod i gynorthwyo ysgolion i reoli eu cyllidebau. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r rhesymeg a'r broses ar gyfer ymweld â'r ysgolion, a'r gwaith parhaus i werthuso'r arferion presennol o ran y gyllideb, i adolygu ac addasu cyllidebau, i weithredu mecanweithiau monitro a'r themâu allweddol sy'n deillio o'r argymhellion a wnaed.<br><br><u>Canlyniad:</u><br><br>Roedd y sesiwn datblygu wedi rhoi cipolwg i'r Pwyllgor ar y gwaith parhaus ar ffurf pennaeth ymgynghorol yn darparu cymorth, cyngor a her a'r cyfan wedi'u teilwra i ysgolion unigol.<br><br>Yn sgil y pryderon a godwyd ynghylch lefel y diffygion o fewn cyllidebau ysgolion dirprwyedig, pwysleisiodd y Pwyllgor fod angen newidiadau sylfaenol i fynd i'r afael â'r sefyllfa yn y dyfodol. Bydd y Pwyllgor yn monitro'r sefyllfa drwy ddiweddariadau pellach fel rhan o Flaengynllun Gwaith 2025/26. |
| 10/03/25 | **<u>Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad: Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol</u>**<br><br>Rhoddodd y sesiwn datblygu drosolwg o wasanaethau cymorth ymddygiad yn y sir yng nghyd-destun y Model Pedwar Cam:<br>Cyfnod 1: Ysgolion Prif Ffrwd<br>Cam 2: Ysgolion Prif Ffrwd<br>Cam 3: Lleoliadau Arbenigol (Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol)<br>Cam 4: Datblygiadau<br><br>**<u>Canlyniad:</u>**<br><br>Cafodd y Pwyllgor gipolwg ar gyffredinrwydd problemau ymddygiad ar draws ysgolion a dysgodd am yr ystod o raglenni cymorth sydd ar waith i ddysgwyr gan ddefnyddio ethos arferion cynhwysol a dulliau adferol i |

| | |
|---|---|
| | annog perthynas gadarnhaol rhwng athrawon, disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid. |

## 4. Effaith

### 4.1 Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni?

Mae'r mwyafrif o'r penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod yn cael eu gwneud gan y Cabinet. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r 65 o Gynghorwyr eraill nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny a gweithredu fel "cyfaill beirniadol". Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn arbennig o ddylanwadol yn hyn o beth gan ei fod yn rhoi cyfle i Bwyllgorau Craffu ystyried a rhoi sylwadau ar bolisïau a materion sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet a dyma lais y bobl. Hefyd mae Craffu yn helpu i sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol.

Mae'r Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ymdrechu i ymgymryd â gwaith ystyrlon sy'n cyfrannu at bolisïau, gwneud penderfyniadau a gwell gwasanaethau i bobl a phlant Sir Gaerfyrddin. Mae'r swyddogaeth graffu hefyd wedi chwarae rôl bwysig o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol. Mae cyfraniad rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys preswylwyr lleol, sefydliadau a phartneriaid yn y gymuned yn rhan bwysig o'r broses graffu ac mae ein Cynghorwyr wedi ymrwymo i ymateb i sylwadau a phryderon preswylwyr.

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25, mae'r Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg wedi cael effaith gadarnhaol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:-

- Cynorthwyo'r Awdurdod o ran ei ymdrechion i wella sefyllfa gyllidebol ysgolion drwy oruchwylio'r gwaith o werthuso'r arferion cyllidebol cyfredol, nodi arferion gorau a gweithredu mecanweithiau monitro yn y dyfodol.

- Adolygu trefniadau a blaenoriaethau uchelgeisiol yr Awdurdod i sicrhau bod plant, pobl ifanc a dysgwyr o bob oed yn Sir Gaerfyrddin yn hapus, yn ddiogel, ac yn ffynnu, ac yn cyflawni eu potensial personol a chymdeithasol a'u potensial o ran dysgu.

- Llunio'r gwaith o ddatblygu Strategaethau fel y Rhaglen Moderneiddio Addysg.

- Tynnu sylw at gyfleoedd gwella wrth ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys cyfrannu at yr Adolygiad Ôl-16 i lywio polisi'r Awdurdod yn y dyfodol.

- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau allweddol y Cyngor – gan gynnwys beth sy'n gweithio'n dda, a lle mae angen gwneud gwelliannau.

- Darparu lle i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau, rhanddeiliaid a chydweithio cyhoeddus.

- Ymgymryd â'i rôl fel "porthgeidwad" i sicrhau bod y materion o ran y gyllideb a pherfformiad o fewn ei gylch gwaith yn cael sylw ac yn cael eu rheoli'n effeithiol.

- Dal Aelodau'r Cabinet i gyfrif a darparu mewnbwn a her adeiladol i ystod o faterion ynghylch polisïau a gwasanaethau.

## 5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae'r swyddogaeth graffu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Awdurdod lle gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am i eitemau gael eu gosod ar agenda cyfarfod y Pwyllgor. Mae'r rhai sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n berchen ar fusnes neu'n cael eu cyflogi yn y sir, hefyd yn cael gofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

Er na dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw awgrymiadau o bynciau posibl gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod adrodd, roedd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor yn cynnwys ystod o bynciau a oedd yn gofyn am ymgynghori/cyfranogi cyhoeddus.

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o Bwyllgorau Craffu a gallu'r cyhoedd i gyflwyno pynciau i'w trafod, cyhoeddir Blaengynlluniau Gwaith Pwyllgorau Craffu yr Awdurdod, a manylion ynghylch sut y gall y cyhoedd gymryd rhan, ar wefan yr Awdurdod:- https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/pwyllgorau-a-chyfarfodydd/craffu/

Yn ystod blwyddyn y cyngor, rhoddodd is-adran Gyfathrebu yr Awdurdod gymorth marchnata digidol i'r swyddogaeth Graffu gan fynd ati i hyrwyddo manylion eitemau ar gyfer y dyfodol a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd mewn ymgais i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogiad y cyhoedd. Gwahoddir y cyhoedd, drwy nifer o wahanol ffyrdd, i gymryd rhan yn y broses Graffu ac i dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n peri pryder.

## 6. Heriau

Parhaodd yr is-adran Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i fod dan bwysau trwy gydol blwyddyn y cyngor o ganlyniad i gyfyngiadau cyllidebol ac effaith barhaus y pandemig coronafeirws. Serch hynny, mae'r adran wedi addasu a datblygu atebion i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ledled Sir Gaerfyrddin. Mae wedi bod yn fater o gydbwysedd i'r Pwyllgor, rhwng cyflawni ei ddyletswyddau craffu a pheidio ag effeithio ar ariannu gwasanaethau rheng flaen.

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni adroddwyd am rai eitemau yn unol â'r Blaengynllun Gwaith a osodwyd gan y Pwyllgor. Mae hyn wedi tynnu sylw at yr angen i adolygu amseriad y gweithgarwch craffu ar y cyd â Swyddogion er mwyn sicrhau bod pynciau'n cael eu trafod ar yr adeg iawn i alluogi trafodaeth ac ymgysylltu ystyrlon yn ogystal â'r effaith a'r gwerth mwyaf posibl.

Mae'r oedi cyn cael adroddiadau ariannol hefyd wedi'i nodi fel her lle nodwyd y byddai prydlondeb o ran cael gwybodaeth am fonitro ariannol yn cefnogi craffu effeithiol yn well ac yn cydlynu'n well ag adroddiadau'r Cabinet.

Sicrhau bod Cynghorwyr yn glir ynglŷn â gofynion unrhyw weithgarwch Craffu i'w helpu i ystyried eu cyfranogiad a sicrhau eu bod yn gallu rhoi eu hamser iddo, gan gydbwyso gofynion eraill. Yn hyn o beth, cydnabyddir y dylid osgoi aildrefnu dyddiadau cyfarfodydd, unwaith y byddant wedi'u pennu, oni bai bod angen.

## 7. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor yn defnyddio egwyddorion y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu er mwyn cyflawni proses graffu syml a phendant. Cafodd gwaith y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26 ei ystyried gan y Pwyllgor mewn sesiwn Blaengynllun Gwaith ar 29 Ebrill 2025 a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel rhan o fonitro'r Blaengynllun Gwaith yn ystod y flwyddyn.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Hefyd, er mwyn gwella swyddogaeth graffu'r Awdurdod, bydd aelodau'n parhau i fynd i sesiynau datblygu, yn gofyn am gyngor y swyddogion lle y bo'n briodol ac yn manteisio'n llawn ar drafodaeth anffurfiol cyn cyfarfodydd. Mae rhai o'r meysydd ffocws ar gyfer y Pwyllgor yn ystod cyfnod blwyddyn y cyngor sydd i ddod yn cynnwys:

- Deall y pwysau parhaus sy'n wynebu pob gwasanaeth o dan ei gylch gorchwyl; ac effaith cyflwyno deddfwriaeth newydd/ychwanegol sy'n effeithio ar wasanaethau a phartneriaid ehangach.
- Parhau i fonitro Adfer mewn Ysgolion, yn enwedig mewn perthynas â chyllidebau, presenoldeb a chyrhaeddiad, ymddygiad, iechyd meddwl a lles ar draws gwasanaethau a thu hwnt.
- Gweithredu Rhaglen Moderneiddio Addysg.
- Parhau i edrych ar effaith diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar Ysgolion, gan gynnwys sicrhau bod capasiti yn gallu cwrdd â'r galw yn y maes hwn.
- Monitro perfformiad, yn enwedig capasiti a'r galw am wasanaethau a phrosesau sicrhau ansawdd.

## 8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae’r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a’r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr. Mae’r cymorth a roddir i’r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:-

- llunio ac anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn unol â'r Blaenraglenni Gwaith;
- darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau'r Cyngor a'i swyddogion;
- rheoli datblygiad strategol Craffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-

gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu gyda'r Cabinet;

- rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- rheoli cydlyniad a datblygiad Blaengynlluniau Gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd.
- cynorthwyo â Rhaglen Datblygu Aelodau'r Pwyllgorau Craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am Graffu yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys Blaenraglenni Gwaith, adroddiadau Gorchwyl a Gorffen ac Adroddiadau Blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu.

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu e-bostiwch craffu@sirgar.gov.uk.

## 9. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o bum cyfarfod ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd. Dylid nodi bod Aelodau'r Pwyllgor hefyd yn cael eu gwahodd i fynd i sesiynau datblygu, gweithdai ac ymweliadau safle trwy gydol blwyddyn y cyngor.

| Aelod y Pwyllgor Craffu | Cyfarfodydd a fynychwyd | % |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Sue Allen | 5 [of 5] | 100% |
| Y Cynghorydd Liam Bowen | 1 [of 5] | 20% |
| Y Cynghorydd Kim Broom | 5 [of 5] | 100% |
| Y Cynghorydd Lewis Davies | 5 [of 5] | 100% |
| Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths | 5 [of 5] | 100% |
| Y Cynghorydd Betsan Jones | 5 [of 5] | 100% |
| Y Cynghorydd Carys Jones* | 1 [of 1] | 100% |
| Y Cynghorydd Dot Jones | 5 [of 5] | 100% |
| Y Cynghorydd Hefin Jones | 4 [of 5] | 80% |
| Y Cynghorydd Jean Lewis | 5 [of 5] | 100% |
| Y Cynghorydd Sean Rees* | 1 [of 1] | 100% |
| Y Cynghorydd Emlyn Schiavone* | 4 [of 4] | 100% |

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Edward Skinner | 3 [of 5] | 60% |
| Y Cynghorydd Janet Williams | 5 [of 5] | 100% |
| Y Cynghorydd Steve Williams* | 4 [of 4] | 100% |
| Swydd wag | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| **Cynrychiolwyr Rhiant-lywodraethwyr** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** | **%** |
| Mr Anthony Enoch | 5 [of 5] | 100% |
| Deborah Elias* | 3 [of 3 ] | 100% |
| Swydd wag | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| **Cynrychiolwyr yr Eglwys** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** | **%** |
| Ms Mari Hughes | 4 [of 5] | 80% |
| Mrs Vera Kenny | 5 [of 5] | 100% |

| Aelodau'r Cabinet | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| Y Cynghorydd Glynog Davies (Addysg a'r Gymraeg) | 3 [o 5] |
| Y Cynghorydd Alun Lenny Adnoddau) | 3 [o 3] |

| Aelodau'r Cabinet | Cyfarfodydd a fynychwyd | % |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Glynog Davies (Addysg a'r Gymraeg) | 4 [of 5] | 80% |
| Y Cynghorydd Alun Lenny Adnoddau) | 4 [of 4] | 100% |

***Nodiadau:**

*Roedd y Cynghorydd Emlyn Schiavone wedi cymryd lle'r Cynghorydd Carys Jones ar 11.09.2024*
*Roedd y Cynghorydd Steve Williams wedi cymryd lle'r Cynghorydd Sean Rees ar 11.09.2024*
*Penodwyd Ms. Deborah Elias ar 08.10.2024*